Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Pennaeth Judith Evans
Coleg y Cymoedd
Heol yr Odyn
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QX

Awst 2014

Annwyl Ms Evans

**Adroddiad Estyn ar Adolygiad Blynyddol o Berfformiad ar gyfer Coleg y Cymoedd**

Yn dilyn yr ymweliad â'ch sefydliad ar 11 i 13 Mehefin 2014 ynghylch yr Adolygiad Blynyddol o Berfformiad, mae'r llythyr hwn yn adroddiad blynyddol sydd wedi'i seilio ar ddeilliannau'r ymweliad hwnnw. Cyhoeddir y llythyr ar wefan Estyn.

Bu Mark Evans AEM ac Alun Connick AEM yn arfarnu perfformiad presennol y sefydliad ac yn adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion sy'n deillio o arolygiadau blaenorol.

Cynhaliodd yr arolygwyr drafodaethau gyda'r pennaeth ac uwch reolwyr, tiwtoriaid, dysgwyr ac aelodau o'r corff llywodraethol. Buont yn craffu ar ddogfennau, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion arolygu blaenorol. Hefyd, buont yn ystyried ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy deithiau cerdded i fwrw golwg ar ddysgu a chraffu ar broses arsylwi'r darparwr.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd yr arolygwyr eu canfyddiadau i'r pennaeth ac i aelodau eraill yr uwch dîm arwain.

**Canlyniad yr ymweliad gan yr arolygwyr cyswllt**

Ers arolygiadau diwethaf y ddau goleg etifeddol, mae'r coleg unedig newydd wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion a adawyd gan y timau arolygu.

## 1 Deilliannau a safonau

Mae'r coleg yn recriwtio dysgwyr o ardal sy'n cynnwys llawer o wardiau difreintiedig. Mae bron dau o bob tri o'i ddysgwyr yn dod o ardaloedd gyda mynegai difreintedd uchel. Mae lefelau llythrennedd a rhifedd gwael gan lawer o'r dysgwyr hyn pan

fyddant yn dechrau yn y coleg. Mae'r coleg wedi gweithio'n effeithiol i wella tueddiadau mewn perfformiad dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae cyfraddau cyrhaeddiad yr un fath â'r cymharydd cenedlaethol neu'n agos ato. Fodd bynnag, mae cyfraddau llwyddiant cyffredinol – sy'n cynnwys cyfraddau cwblhau – yn parhau islaw'r cymharydd cenedlaethol.

Ar draws y coleg, mae 44% o'r ymrestriadau yn rhai ar gyfer cyrsiau hir. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r coleg wedi gwella lefelau cwblhau, cyrhaeddiad a llwyddiant cyffredinol ar gyfer cyrsiau hir. Mae dros hanner y meysydd dysgu yn dangos gwelliant o ran cwblhau cyrsiau'n llwyddiannus rhwng 2011-2012 a 2012-2013. Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn gweithio i alinio perfformiad ar draws pob maes dysgu yn gyson â chymaryddion cenedlaethol. Mae llawer o ddysgwyr ar gyrsiau byr yn cwblhau eu rhaglenni dysgu'n llwyddiannus.

## 2 Medrau Hanfodol

Erbyn hyn, mae gwasanaethau cymorth dysgwyr yn cydweithio fel un uned i weithredu'n gyson ar draws y coleg. Dylai hyn olygu y bydd y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei monitro a'i chydlynu yn yr un ffordd ar draws pob campws yn y dyfodol. Dylai gwasanaethau lles a chydlynu cynllunio gyrfaol gael eu cyflwyno'n gyson hefyd. Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi cyflwyno system gwybodaeth reoli newydd a dogfennau Cynlluniau Dysgu Unigol fel rhan o broses o wella cyfathrebu rhwng staff cymorth dysgwyr a staff addysgu. Bwriad y datblygiadau hyn yw galluogi athrawon i gael gwybodaeth well am faterion a allai effeithio ar berfformiad dysgwyr. Mae gan y coleg brotocolau rhannu gwybodaeth ar waith gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, gan alluogi i'r coleg gael at ddata ysgol am ddysgwyr. Ar hyn o bryd, mae'n trafod cael protocol tebyg gyda Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae mecanweithiau da ar waith i nodi pa ddysgwyr sydd angen cymorth. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cael asesiad cychwynnol o'u medrau sylfaenol a hanfodol sy'n llywio'r gwaith o gynllunio cymorth. Mae'r coleg yn defnyddio gwybodaeth yn briodol i nodi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i ddatblygu eu llythrennedd a'u rhifedd. Mae cyfleusterau galw heibio defnyddiol ar gael i roi cymorth a chaiff dysgwyr wybodaeth dda am sut gallant gael gafael ar help ychwanegol.

Mae'r coleg wedi gwella'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer tiwtorialau; fodd bynnag, nid yw sesiynau tiwtorial yn canolbwyntio'n ddigon clir ar gynllunio gyrfaol dysgwyr i sicrhau eu bod yn gwneud y penderfyniadau gorau ynghylch symud ymlaen i addysg uwch, hyfforddiant a chyflogaeth.

## 3 Addysgu ac Asesu

Mae'r coleg yn parhau i gryfhau ei ffocws ar addysgu ac asesu. Mae wedi datblygu amrywiaeth o fentrau defnyddiol sy'n gwella ansawdd addysgu ac asesu ac mae mentrau a digwyddiadau pellach yn yr arfaeth ar gyfer y dyfodol agos. Mae gan nifer o staff rolau sydd wedi'u diffinio'n glir ac sydd wedi'u llunio i hybu arfer dda. Er

enghraifft, mae mentoriaid addysgu'n helpu staff i ddatblygu dulliau addysgu sy'n cynnwys gweithgareddau gyda mwy o ffocws ar ddysgwyr.

Mae rheolwyr y coleg yn monitro ansawdd yr addysgu a'r asesu ar draws y coleg trwy asesiadau o arsylwadau ar addysgu ac mae arfer dda'n cael ei rhannu fwyfwy ar draws y coleg.  Caiff rheolwyr meysydd dysgu gefnogaeth gan uwch reolwyr a chânt eu herio'n drylwyr i wella addysgu a dysgu ymhellach.  Mae'r coleg wrthi'n cefnogi staff addysgu i wella addysgu ac asesu trwy gymryd rhan mewn arfer addysgu arloesol sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr.

## 4 Cwricwlwm

Mae'r coleg yn cyflwyno darpariaeth eang sy'n bodloni anghenion dysgwyr a chyflogwyr ar draws yr ardal leol a rhanbarth y de-ddwyrain.  Mae wedi dal newid llwyr i'r cwricwlwm yn ôl er mwyn cyflwyno cynllun uno fesul cam i osgoi tarfu'n ddiangen ar ddysgwyr.  Mae'r strategaeth hon wedi gwella ffocws rheolwyr ar newid y cwricwlwm i alinio â chyflwyno Rhaglenni Meysydd Dysgu.  Mae ystod briodol o wybodaeth am y farchnad lafur yn cael ei defnyddio'n dda i gyflwyno cyrsiau a datblygu darpariaeth newydd mewn ystod eang o bynciau galwedigaethol ac academaidd.  Mae'r coleg wedi dadansoddi'r niferoedd sy'n ymgymryd â'r ddarpariaeth Safon Uwch ac wedi defnyddio'r wybodaeth hon i ad-drefnu'r meini prawf mynediad er mwyn denu a recriwtio dysgwyr mwy priodol.  Mae wedi datblygu cynnig cwricwlaidd arbennig o dda mewn partneriaeth â choleg chweched dosbarth lleol ac ysgol uwchradd leol.

Mae'r coleg wedi datblygu a chynnal cysylltiadau gwaith da gydag ystod eang o gyflogwyr i gynorthwyo â datblygu a chyflwyno cyrsiau i fodloni anghenion y diwydiant lleol.  Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu staff ar draws y coleg i wybod y diweddaraf am ddiwydiant ac, mewn sawl enghraifft, i sicrhau profiad gwaith i'w dysgwyr.

## 5 Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli wedi cyflawni uno'r ddau goleg etifeddol trwy strategaeth ystyriol, wedi'i chyflwyno fesul cam.  Mae'r dull hwn wedi'i gyflwyno'n ofalus er mwyn cael cyn lleied o effaith negyddol â phosibl ar ddysgwyr ac mae wedi datblygu hunaniaeth y coleg newydd a hybu cydweithio gan y staff yn effeithiol.  O ganlyniad, mae staff wedi cymryd rhan mewn lansio'r coleg integredig newydd gyda gweledigaeth ar y cyd a brwdfrydedd.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr wedi gweithio'n dda i bennu cyfeiriad strategol y coleg newydd ac mae uwch reolwyr yn cydweithio'n dda i ategu'r nodau hyn.  Mae ethos clir o 'bartneriaid cyfartal' yn gweithio ar draws y ddau goleg etifeddol wrth ymgymryd â cham cyntaf yr uno ac mae hyn yn gweithio'n dda i sicrhau bod staff o'r ddau goleg etifeddol yn cydweithio.  Mae cyfathrebu ar bob lefel ar draws y coleg yn dda, ac mae staff yn cael gwybodaeth dda am ddatblygiadau ac yn derbyn ystod eang o wybodaeth.

Mae rheolwyr canol y coleg, llawer ohonynt newydd ddechrau eu rolau newydd, yn cydweithio'n dda i weithredu nodau'r coleg. Mae'r rheolwyr hyn wedi diwygio targedau perfformiad a'r prif nod yw gwella safonau dysgwyr.

## 6 Arweinyddiaeth a rheolaeth (sicrhau ansawdd)

Mae'r coleg wedi parhau i ddatblygu a chryfhau ei weithdrefnau a'i brosesau sicrhau ansawdd i fodloni ei nodau'n effeithiol. Mae cynlluniau datblygu clir a strategaethau gwella ar draws ystod eang o feysydd allweddol. Mae rheolwyr ar bob lefel yn dangos dealltwriaeth glir o'u cryfderau a'u meysydd i'w gwella yn y coleg. Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau atebolrwydd rheolwyr canol a staff am berfformiad eu maes dysgu. Mae systemau a gweithdrefnau newydd wedi'u hanelu at sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi gan ymyriadau cynnar a ddefnyddir i nodi anghenion. Mae gan y gweithdrefnau sicrhau ansawdd ffocws clir ar olrhain cynnydd dysgwyr, gwella cyrhaeddiad a gwella ansawdd addysgu ac asesu.

## 7 Crynodeb o'r cynnydd o ran yr argymhellion a amlinellwyd yn adroddiadau'r ddau goleg etifeddol

At ei gilydd, mae'r coleg newydd wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni'r argymhellion o arolygiadau diwethaf y colegau etifeddol. Mae ei bolisïau, ei strategaethau a'i gynlluniau newydd yn cyflawni cyfosodiad da o gamau gweithredu i wella ymhellach gysondeb ac ansawdd y cyflwyno i ddysgwyr.

## 8 Arall

Mae'r coleg yn gweithio'n dda gydag ysgolion lleol i gyflwyno darpariaeth yn ardal Rhondda Cynon Taf. Mewn ymateb i'r angen a nodwyd ar gyfer darpariaeth addas i ddysgwyr sy'n rhoi'r gorau i'r ysgol cyn Ionawr, mae'r coleg wedi datblygu derbyniad ym mis Ionawr i ddysgwyr er mwyn eu galluogi i barhau mewn addysg.

Mae'r coleg yn cynnal deialog cynhyrchiol gyda phenaethiaid ysgol o Gaerffili mewn ymdrech i wella'r cyfleoedd dilyniant i ddysgwyr. Daw ychydig ohonynt i'r coleg i ddilyn cymwysterau Safon Uwch nad yw'r ysgolion yn gallu'u darparu. Mae gweithio'n dda mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol wedi galluogi datblygu protocolau rhannu gwybodaeth gyda Rhondda Cynon Taf, gan ganiatáu mynediad at ddata addysgol am ddysgwyr cyn-16 oed. Mae hyn yn golygu bod y coleg yn gallu darparu trefniadau pontio mwy effeithiol i ddysgwyr sy'n ymuno â'r coleg.

Mae gwaith hynod effeithiol mewn partneriaeth â Choleg Dewi Sant ac Ysgol Gyfun Gatholig Cardinal Newman wedi arwain at Ysgol Cardinal Newman yn seilio'i darpariaeth Blwyddyn 12 yn y coleg, gan alluogi'r dysgwyr hynny i gynnal eu cysylltiadau â'r ddarpariaeth ffydd.

Mae cysylltiadau da'r coleg gyda chyflogwyr, gan gynnwys cwmnïau o'r radd flaenaf, yn creu cyfleoedd dilyniant da i ddysgwyr. Ar hyn o bryd, mae'r coleg yn buddsoddi

mewn datblygu cyfleuster i ddysgwyr ddatblygu medrau cynnal a chadw'r rheilffyrdd, yn sgil cytuno â chyflogwyr y bydd dysgwyr yn mynd ymlaen i brentisiaethau.

Mae'r coleg wedi llunio Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig, gan osod targedau heriol ynddo. Mae'r cynllun wedi'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg, ac mae'n aros am gymeradwyaeth y Comisiynydd iddo. Mae dau Hyrwyddwr Dwyieithrwydd y coleg wedi dwyn yr holl staff ynghyd ar gyfer hyfforddiant iaith ac wedi hybu nifer o fentrau i hybu ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn rhai dosbarthiadau.

Mae uno dau goleg etifeddol wedi creu nifer fwy o ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ac wedi helpu i godi statws a gwerth y Gymraeg ar draws y coleg. Mae Hyrwyddwyr y Gymraeg wedi cynnal ymchwiliad o safon i sut caiff y dimensiwn Cymreig ei gyflwyno mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth: dangosodd hyn welliant mewn ymwybyddiaeth dysgwyr a'u defnydd o'r Gymraeg. Erbyn hyn, maent wrthi'n diwygio llawlyfr y Dimensiwn Cymreig ar gyfer staff addysgu. Mae'r Hyrwyddwyr wedi datblygu cysylltiadau partneriaeth da gyda mudiadau fel y Mentrau Iaith lleol, ac maent yn gweithio'n dda gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal i alluogi dysgwyr sy'n siarad Cymraeg i bontio'n effeithiol i'r coleg.

Fe wnaeth 3,488 o ddysgwyr amser llawn yn y coleg gwblhau arolwg llais y dysgwr yn 2014. Mae hyn yn gyfwerth â rhyw 64% o'r dysgwyr. Mae 36% o'r ymatebwyr o'r farn bod y coleg yn dda iawn at ei gilydd, sy'n debyg i gyfartaledd y sector, ac mae 43% arall o'r farn bod y coleg yn dda, sydd hefyd yn gyson â chyfartaledd y sector. Dywed 34% o ymatebwyr amser llawn fod eu cwrs yn well na'r disgwyl ac mae hyn ychydig islaw cyfartaledd y sector. Mae ymatebion i'r pum thema allweddol yn yr arolwg yn dangos bod y coleg wedi cael sgôr ychydig islaw sgôr y sector yn y tri.

Mae'r coleg yn defnyddio ystod briodol o arolygon a holiaduron eraill i ofyn barn dysgwyr am sut gall wella'r profiad dysgu a llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu'r ddarpariaeth.

Mae'r coleg yn deall y prif flaenoriaethau ar gyfer gwella ac yn datgan y rhain mewn cynlluniau priodol. Mae arolygwyr yn cymeradwyo'r blaenoriaethau hyn a bydd eich arolygwyr cyswllt yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt â'r sefydliad. Hefyd, byddant yn adolygu'r cynnydd a wna'r coleg o ran gwella'r gwaith o gofnodi ac adrodd ar ddeilliannau o gymorth dysgu a'r prosesau a ddefnyddir i fesur y gwelliant ym medrau dysgwyr.

**Argymhellion**

A1 Parhau i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn deilliannau a chodi cyfraddau llwyddiant mewn meysydd perthnasol i lefel cymaryddion cenedlaethol

A2 Cynyddu'r gwaith o fonitro ac arfarnu'r ddarpariaeth ar gyfer cymorth dysgwyr

**Y camau nesaf**

Bydd Mark Evans AEM ac Alun Connick AEM yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol trwy eu rôl gyswllt â'r sefydliad.

Yn gywir

**Lin Howells**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol